

‘Taro’r hanes ar bapur ’rhen ddyn’: Cipolwg ar Nofel-ddyddiaduron Ffuglen Wyddonol y Gymraeg

Nod yr astudiaeth hon yw edrych ar berthynas amseryddol y digwyddiad a’r darganfod mewn nofelau ffuglen wyddonol sydd ar ffurf dyddiadur. Archwilir elfennau problematig y ffurf o ran creu ffuglen (gan ystyried elfennau gwrthgyferbyniol y dyddiadur a ffuglen), hygredd y person cyntaf fel llais y naratif ac amcanion yr adroddwr wrth gadw dyddiadur, gan edrych yn benodol ar ddefnydd o’r dyddiadur fel ffurf wrth gyflwyno tystiolaeth ‘hanesyddol’ am y dyfodol. Cyflwynir y gwaith ar ffurf dyddiadur, yn null beirniadol-greadigol Rhiannon Marks (*Pe Gallwn Fe Luniwn Lythyr* ac *Y Dychmyg Ôl-fodern*) a Tudur Hallam (*Saunders y Dramodydd*), a hynny er mwyn cronicle’r broses ymchwil ac arbrofi â manteision a chyfyngiadau’r ffurf i gyflwyno cofnod dychmygol. Ystyrir pa mor arwyddocaol yw nodi profiad ar gof a chadw mewn nofelau ffuglen wyddonol, gyda phwyslais arbennig ar y berthynas rhwng y dyddiadurwr a’r darlennydd ffuglennol, yn ogystal â’r darlennwyr ‘go iawn’ sy’n dal y nofel yn eu dwylo.

15 Gorffennaf 2020

Awch i ’sgrifennu heddiw am y tro cyntaf ers oes pys. Derbyniais e-bost gan Robin Chapman yn ddiweddar yn gofyn am hynt a helynt fy ngwaith ymchwil – gofyn yn benodol am egin-syniad o’r ddoethuriaeth am nofel-ddyddiaduron (*diary novels*) ffuglen wyddonol – ac mae’r syniad yn troi a throsi yn fy meddwl byth ers hynny. Casglais bentwr o nofel-ddyddiaduron ynghyd i’w cynnwys yn fy ngwaith ymchwil; *Y Blaned Dirion* gan Islwyn Ffowc Elis (1968), *Y Dydd Olaf* gan Owain Owain (1976), *Y Tŷ Haearn* gan John Idris Owen (1984), *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* gan Robin Llywelyn (1992), *Annwyl Smotyn Bach* gan Lleucu Roberts (2008), *Ebargofiant* gan Jerry Hunter (2014) a *Llyfr Glas Nebo* gan Manon Steffan Ros (2018). Wrth ystyried y pentwr yma, rhaid ystyried beth sy’n gwneud pob un ohonynt yn nofelau ffuglen wyddonol. Dyw ffuglen wyddonol erioed wedi bod yn genre hawdd ei ddiffinio, gyda nifer o feirniaid llenyddol

yn cynnig enghreifftiau o ddiffiniadau sy'n gwrth-ddweud ei gilydd, a rhai yn nodi bod cyfyngu gweithiau i un diffiniad pendant yn broblematic. Er enghraifft, dywed Paul Kincaid: 'There is not one definition of science fiction but many, there is not one urtext but many. We choose whichever best suit our conceptions of science fiction and change those choices (or devise new ones) as our conceptions change.'¹ Mae'r grym yn nwylo'r beirniad llenyddol unigol felly! Fodd bynnag, amlyga sylwadau Kincaid fod y genre yn newid o hyd, a dylid ystyried y genre yng nghyd-destun patrwm o 'family resemblances'.

Family resemblances recognise science fiction as a restless, dynamic form that might head out in multiple different directions from multiple different directions from multiple different origins, and yet still be something that we can talk about sensibly under the one heading: science fiction.²

Beth sydd gan y llyfrau yn y pentwr o'm blaen yn gyffredin felly? Wrth ddatgan bod ffuglen wyddonol wedi datblygu fel ymateb i'r Chwyldro Diwydiannol, cyfeiria Adam Roberts at y genre fel 'technology fiction',³ ac ategir hyn gan Roger Luckhurst, sy'n defnyddio'r gair 'mechanism' i ddynodi technoleg: 'SF is a literature of technologically saturated societies. [...] SF texts imagine futures of parallel worlds premised on the perpetual change associated with modernity, often by extending or extrapolating aspects of Mechanism from the contemporary world.'⁴ Felly, o ystyried y testunau dan sylw, mae taith ofodaidd *Y Blaned Dirion* yn archwilio'r dechnoleg angenrheidiol i deithio i'r gofod a bodolaeth arallfydwyr â gallu gwyddonol tu hwnt i amgyffred pobl y Ddaear. Mae *Y Dydd Olaf* yn ddarlun o gofnod Cymraeg sy'n llithro drwy'r rhwyd am nad yw'r dechnoleg yn ei ddeall, ac yn ymdrin yn rhannol â goblygiadau technoleg i gymunedau lleiafrifol. Adleisia *Y Ty Haearn* bryderon am golli'r Gymraeg ochr yn ochr â phryderon am chwalfa niwclear, tra bo *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, ar ffurf 'teithlyfr trydan', yn frith o gyfeiriadau at ddinistrio meddalwedd ac yn portreadu rhyfel fel gêm gyfrifiadurol. Fodd bynnag, mae gan dechnoleg a datblygiadau gwyddonol *Annwyl Smotyn Bach* swyddogaeth ormesol, yn cadw llygad ac yn cofnodi pob dim, a phortreada

Ebargofiant a *Llyfr Glas Nebo* ddau ddyfodol ôl-apocalyptaidd sy'n ymwrthod yn llwyr â thechnoleg yr oes sydd ohoni, gan droi'n ôl at hen dechnoleg, sef papur a phensil. Mae technoleg yn sicr wrth wraidd pob un o'r nofelau, ond mae ein syniad o beth yw technoleg hefyd wedi newid gydag amser. Mae genre ffuglen wyddonol wedi ymateb ac addasu i ddatblygiadau technolegol a gwyddonol, gyda Luckhurst yn nodi bod ffuglen wyddonol yn genre sy'n symud o greisis i greisis, yn marw ar ei draed, cyn atgyfodi eto.⁵ Os felly, rhaid canolbwyntio ar y 'family resemblances' rhwng testunau'r pentwr, a heb os, y dechnoleg ac ymateb y naratifau a'r cymeriadau i'r dechnoleg honno, sydd wrth wraidd pob un ohonynt.

O ystyried bod motiffau a syniadaeth ffuglen wyddonol yn newid o ddegawd i ddegawd gan ymateb i ddatblygiadau newydd, does dim rhyfedd bod gan nofelau ffuglen wyddonol yn gyffredinol berthynas ryfedd ag amser – gyda'r nofel-ddyddiadur, sy'n aml â dyddiadau pendant wedi'u nodi ar frig cofnodion y cymeriadau, yn amlygu hyn ymhellach. Perthyna'r nofel-ddyddiadur i sawl presennol. I ddechrau, mae presennol yr awdur, yn 'sgrifennu a chyhoeddi'r nofel yn y lle cyntaf (sy'n aml yn broses sy'n digwydd dros gyfnod o amser, yn enwedig yn achos *Y Dydd Olaf* Owain Owain, na chafodd ei chyhoeddi tan 1976 er iddi gael ei hanfon at gystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn 1970),⁶ ac yna mae'r presennol a ddarlunnir yn y nofel-ddyddiadur (sy'n aml wedi ei leoli yn y dyfodol) drwy lygaid adroddwr anhysbys. Weithiau, mae ail bresennol yn cael ei ddarlunio yn y nofel-ddyddiadur wrth i rywun ddarganfod y dyddiadur (fel y gwelir, er enghraifft, yn *Annwyl Smotyn Bach* gan Lleucu Roberts, wrth i Llio, yn 2089, ailddarllen y dyddiadur a luniodd yn 2040) ac yna, mae presennol y darllenydd, sydd weithiau'n golygu bod y 'dyfodol' a ddarluniwyd ym mhresennol yr awdur wedi hen droi'n orffennol. Mae'r 1994 a ddarlunnir yn *Y Tŷ Haearn* gan John Idris Owen yn enghraifft o hyn – roedd yn ddyfodol pan gyhoeddwyd y nofel yn 1984, ond erbyn hyn, mae'n orffennol, ac yn orffennol sy'n bur wahanol i'r gorffennol a ddigwyddodd go iawn. Sonia prif gymeriad ac adroddwr *Y Dydd Olaf*, Marc, am berthynas unigryw cofnodion ysgrifenedig ag amser: 'Dyna un peth rwy'n ei hoffi ynglŷn â llyfrau – maent yn gwneud y gorffennol a'r dyfodol yn ddarnau o'r presennol.'⁷ Felly, a yw'n deg i ddweud bod gan y dyddiadur, a'r nofel-ddyddiadur ffuglen wyddonol yn benodol, berthynas hylifol ag amser?

Gwelais hefyd hysbyseb am gyfrol newydd Rhiannon Marks heddiw – *Y Dychymyg Ôl-fodern: Agweddau ar Ffuglen Fer Mihangel Morgan*. Cyffrous! Mae beirniadaeth greadigol yn datblygu o hyd – gyda gwaith Marks a Tudur Hallam wedi ychwanegu cryn dipyn i'r maes yn y Gymraeg. Wedi bod eisiau mentro cyfuno fy niddordebau a rhoi cynnig arni. Heb wneud eto ... ond fory fydd hi erbyn hyn, nid heddiw. Mae'n bryd ei throï hi!

16 Gorffennaf 2020

Gofynnodd El i fi ddoe beth oeddwn yn ei wneud yn teipio'n frysiog wrth fy ngliniadur.⁸ Dechrau cadw dyddiadur, oedd fy ateb plaen, ac fe ofynnodd i fi ymhelaethu. Wedi dechrau darllen a chadw dyddiadur i ddeall mwy am y ffurf a'r nofel-ddyddiadur er mwyn gallu cynnig rhywfaint o gyddestun i'm hymchwil, ddwedais i wedyn. Mae diffinio'r dyddiadur (neu 'ddyddyfr') yn angenrheidiol cyn mynd ati i drafod nofel ar ffurf dyddiadur. Ar ôl dechrau cadw dyddiadur ddoe, rhaid bod gen i ryw fath o amgyffred greddfol o beth yw dyddiadur. Yn ôl Bruce Merry: 'Everyone is fascinated by diaries. Most of us have tried to keep one at some time or other of our life, and we are eager to read those kept by other people.'⁹ Wrth gyflwyno *The Diary Novel*, diffinia Lorna Martens y dyddiadur fel a ganlyn:

Today we think of the diary as a periodically kept, secret, or at least private notebook in which the diarist writes down anything ranging from intimate details or introspective self-assessments to descriptions of the events of his day, random observations or aperçus, outbursts of anger, aphorisms, drafts for poems, or even quotations.¹⁰

Ond a ellir dweud mewn gwirionedd bod y nofel-ddyddiadur yn ym-gweddu fel dyddiadur 'go iawn'? Yn ôl Trevor Field: 'The vital point here is recognition that a diary novel is not a fake diary.'¹¹ Darganfûm gystadleuaeth eisteddfodol a feirniadwyd gan Kate Roberts, sef 'Stori fer ar ffurf pennod o ddyddiadur dychmygol', ac fe ddisgrifiodd hithau'r tensiwn creadigol pan fo dwy ffurf ymddangosiadol wahanol yn cwrdd:

Pan fo dyn yn ysgrifennu stori, mae hi'n gyfanwaith gorffenedig yn ei feddwl cyn iddo ddechrau ei hysgrifennu, ond peth anorffenedig, peth sy'n myned ymlaen o ddydd i ddydd yw dyddiadur, lle y cyfleir mŵd y foment yn hytrach na'r gair terfynol ar gymeriad neu ddi-gwyddiad.¹²

Amlyga Gerald Prince fod y nofel-ddyddiadur yn aml yn efelychu'r syniad o gofnodion achlysurol, gan nodi:

The narrator does not tell a story in one sitting; he relates series of happenings in at least two different instances (but actually, in many more) and there is no diary novel in which a narrator, deciding to keep a diary, writes one entry and then abandons his project.¹³

Yr hyn sy'n eironig yw bod pob nofel hefyd yn adrodd stori mewn pythau achlysurol – hyd yn oed petai awdur yn eistedd am ddiwrnod cyfan i 'sgrifennu, byddai'n rhaid iddo (neu iddi) godi i fynd i'r tŷ bach bob nawr ac yn y man! Ond twyll ffuglen yw ei bod yn cuddio'r broses honno, ac mae beirniadaeth lenyddol 'draddodiadol' yn gwneud yr un fath. Twyll nofelau ar ffurf dyddiadur yw bod y cofnodion achlysurol yn rhai gwneuthuredig ... a chyda'r pwynt hwnnw, dyma ddod â'm pwt am heddiw i ben!

17 Gorffennaf 2020

Wrth lunio dyddiadur, mae Marc yn *Y Dydd Olaf* yn aml yn cwestiynu ei amcanion. Yn ei ddyddiaduron cynnar, noda: 'Mae'n debyg y cadwaf ddyddiadur am fod arnaf eisiau sgrifennu – a chadw dyddiadur yn rhwyddach ffordd o wneud hynny na'r un ffordd arall.'¹⁴ Yn gyffredinol mewn nofel-ddyddiaduron, mae'r weithred o 'sgrifennu'n hynod bwysig. Noda Trevor Field: 'The fictional diarist's concern is with the (f)act of writing.'¹⁵ Heb y weithred o 'sgrifennu, does dim dyddiadur. Disgrifia Marc arwyddocâd y weithred o 'sgrifennu yn *Y Dydd Olaf*, gan bwysleisio ei bwysigrwydd: 'I mi, y munudau hyn, sgrifennu'r frawddeg hon yw bywyd.'¹⁶ Dwyn hyn

i gof syniadaeth ffemiynddol Hélène Cixous sy'n cyflwyno 'sgrifennu fel ffordd o sicrhau parhad:

Writing: a way of leaving no space for death, of pushing back forgetfulness, of never letting oneself be surprised by the abyss. Of never becoming resigned, consoled; never turning over in bed to face the wall and drift asleep again as if nothing had happened; as if nothing could happen.¹⁷

Mae'r weithred o ddyddiadura yn sicrhau bod teimladau haniaethol yn rhywbeth solid, diriaethol sy'n bodoli, ac yn bodoli y tu hwnt i'r presennol lle'u hysgrifennwyd, ar gyfer y dyddiadurwr ei hun neu'r darllenydd arfaethedig yn y dyfodol. Yn ogystal â hynny, mae'r dyddiadur yn profi'n ffordd i rai oroesi. Cwestiyna prif gymeriad *Y Tŷ Haearn*, Huw, ei amcanion dros 'sgrifennu, ac yntau wedi ei ganfod ei hun mewn byncar tanddaearol o dan swyddfeydd y Cyngor Sir ac wedi goroesi trychineb niwclear: 'Yr ysfa afresymol i wneud rhywbeth pan wn i'n iawn 'mod i'n gwbl ddiffwrwyth i wneud dim?'¹⁸ Mae'r modd y disgrifia ei hun yn 'ddiffwrwyth' yn pwysleisio'r syniad o boeni am barhad yn dilyn y digwyddiad ôl-apocalyptaidd y mae'n rhan ohono.

Pwysleisia Marc yn *Y Dydd Olaf* fod ei ddyddiaduron yn rhan bwysig o'i ymdrech i sicrhau y bydd tystiolaeth o'r hyn a brofodd yn ystod ei fywyd. Ymhlith ei gasgliad o lythyron a dyddiaduron, cyflwynir portread o ddatblygiad Cyngor y Frawdoliaeth ymhlith myfyrwyr ym maes Electroneg a Gwyddoniaeth. Dechreuau'r Frawdoliaeth fel breuddwyd naif i uno lleiafrifoedd y byd yn un mwyafrif, cyn araf droi'n gyfundrefn gyfrifiadurol sy'n gyfrifol am gynaeafu organau ac 'addasu' pobl yn robotiaid unfath, y 'di-rywiaid'.¹⁹ Noda Marc fod ei ddyddiaduron yn 'gais i'r hunan nad ffug yw'r cyfan – llythrennau duon, pendant, real, ar bapur gwyn, yn bloeddio: "Gwir yw! Digwyddodd!"²⁰ Eto, fel y dyddiadurwr mwyaf hunanymwybodol o blith y testunau ffuglen wyddonol dan sylw, disgrifia Marc bwysigrwydd ei ddyddiaduron mewn cyfnodau gwahanol fel a ganlyn: 'Rhywle i ffoi iddo, lle nad oes dim o'r ansicrwydd a berthyn i yfory, na dim o'r afrealiaeth sy'n rhan o heddiw.'²¹ Serch y syniad o barhad, mae persbectifau a phrofiadau gwahanol ddarllenwyr mewn dyfodolau

amrywiol yn altro'r hyn a wêl rhywun wrth droi at y testun ... Mae'n bosib nad yw'r dyddiadur, o ganlyniad i hunaniaethau niferus y sawl sy'n darllen y testun, mor solid wedi'r cwbl ...

18 Gorffennaf 2020

Dyw *Wythnos yng Nghymru Fydd* Islwyn Ffowc Elis ddim yn y pentwr o nofel-ddyddiaduron, ond mae nifer o sylwadau yn y nofel sy'n berthnasol i'r arfer o gadw cofnod. Datgela Ifan ar ddechrau'r nofel iddo dderbyn llythyr gan ei ffrind, Tegid, yn ei annog i 'sgrifennu'r hanes. “[F]e fydd yn werthfawr i haneswyr y dyfodol wybod am yr arbraw cyntaf yn y maes yma a wnaed yng Nghymru”, meddai Tegid yn y llythyr, gan nodi ymhellach: “‘Taro'r hanes ar bapur, 'rhen ddyd, pan gei di hamdden.’”²² Noda Ifan i lythyr Tegid droi'r 'fantol', a dywed:

Er mwyn haneswyr a gwyddonwyr y dyfodol, ac er cof edmygus am Doctor Heinkel, mi benderfynais ysgrifennu'r hanes. Nid i'w gyhoeddi, wrth gwrs. Nid oes gennyf ronyn o awydd yr enwogrydd rhad a fyddai'n rhwym o ddilyn cyhoeddi hanes fel hwn.²³

Mae'r cysyniad o gofnodi digwyddiad arwyddocaol yn greiddiol i benderfyniad Ifan i adrodd ei stori. Fodd bynnag, wrth ddechrau ei gofnod, noda:

Ond ar wahân i unrhyw werth hanesyddol neu wyddonol a all fod i'r hanes, mi gaf innau ryw gymaint o ollyngdod wrth osod ar bapur beth sy'n ormod o faich i ddyd ei gario'n gudd yn ei galon ar hyd ei oes.²⁴

Felly, yn ogystal â sicrhau tystiolaeth o'i brofiad, noda ei fod yn awyddus i rannu profiad sy'n 'gysegredig iawn' iddo ef, gan obeithio am ryddhad emosïynol o rannu'r stori – yn yr un modd ag y byddai rhywun efallai'n rhannu cyfrinach â dyddiadur fel petai'n ffrind. Serch hynny, does dim cyfeiriad pellach gan Ifan at y weithred o 'sgrifennu yng nghorff na diwedd-glo'r nofel.

Yr hyn sy'n ddi-ddorol yw bod Johan Schimanski yn ystyried *Wythnos yng Nghymru Fydd* yn ymgais i gyflwyno darllenwyr Cymraeg eu hiaith i *genre* anghyfarwydd. Er bod Ifan yn nodi ei fod wrthi'n 'ysgrifennu', noda Schimanski i Ifan wireddu swyddogaeth amgenach: 'Swyddogaeth Ifan yn *Wythnos yng Nghymru Fydd* yw darllen, ac felly, mewn gwirionedd, bod yn "ddwbl" i'r darlennydd.'²⁵ Felly, pam, yn ôl Schimanski, mae Ifan yn 'darllen'? 'Rhydd Ifan gymorth i'r darlennydd gymathu rhyfeddodau'r flwyddyn (neu'r *blynyddoedd*) 2033 trwy eu darllen ei hun, trwy ddarllen dros y darlennydd, trwy fod yn esiampl i'r darlennydd.'²⁶ Mae *Wythnos yng Nghymru Fydd* ymhlith y nofelau cyntaf i bortreadu byd ffuglen wyddonol yn y Gymraeg. Pwysleisia Schimanski fod 'darllen yn arafach' drwy ddilyn taith Ifan yn rhan annatod o 'helpu'r darlennydd i ddod i delerau â iaith a chonfensiynau anghyfarwydd ffuglen wyddonias'.²⁷ Os felly, mae'r naratif person cyntaf yna'n rhoi'r darlennydd yn esgidiau Ifan. Drwy weld y byd yn llwyr drwy ei lygaid ef, mae'n ein 'dysgu i ddarllen ffuglen wyddonol',²⁸ yn union fel y mynegodd Sioned Puw Rowlands wrth drafod ffurf y person cyntaf:

mae'r profiad o ddarllen wedyn yn pylu'r ffin rhwng 'Rwyf i' yr adroddwr a 'Rwyf i' y darlennydd, gan beri agosatwydd rhwng y darlennydd a'r adroddwr/prif gymeriad. Yn ei dro, golyga hyn fod y darlennydd dan yr argraff ei fod yn profi'r digwyddiadau a'r emosiynau hyn ei hun, trwy gyfrwng cyfrwys modd y person cyntaf.²⁹

Yn ogystal â hynny, mynega Rowlands: 'Mae adrodd stori drwy gyfrwng y person cyntaf yn gallu creu argraff o realaeth ar ei mwyaf grymus, wedi'r cwbl dyma stori sy'n cael ei chyflwyno nid yn ail-law, ond gan y cymeriad sydd yn profi'r stori ei hun.'³⁰ Os felly, o fewn nofel, mae creu cofnod neu ddyddiadur hefyd yn rhan o ddenu'r darlennydd at brofiad a ymddengys yn real, gan mor gyfarwydd yw'r ffurf. Fel y dywed Bruce Merry:

In a way, the diary is with us all, as an idea or a project or a curiosity which is instantly attainable. It is the most pliable and elastic of literary genres, in fact we are so familiar with it that we hardly include it in our assessment of important literary forms.³¹

Felly yn ogystal â chyflwyno ffurf sy'n gyfarwydd i ddarllenwyr er mwyn eu helpu i ymgysgu â ffuglen wyddonol, ymddengys fod y dyddiadur fel cyfrwng llenyddol o fewn cyrraedd pawb.

Daw'n amlwg mai fesul tipyn y mae darlennydd, o ba gyfnod bynnag, yn dysgu ei fod mewn byd anghyfarwydd. Mae gweld y byd drwy lygaid adroddwr person cyntaf unigol sy'n gorfod dod i delerau â'r digwyddiadau ac yn ceisio gwneud synnwyr ohonynt drwy greu cofnod ysgrifenedig, yn un ffordd o wneud hynny.

Er nad yw pob enghraifft o ffuglen wyddonol yn gwneud defnydd o'r person cyntaf, mae'n nodwedd gyffredin mewn nifer o destunau Cymraeg. Mae'r cysyniad o '[g]reu argraff o realaeth ar ei mwyaf grymus' a ddyfynwyd uchod yn berthnasol iawn i ffuglen wyddonol, er nad yw'r cysylltiad rhwng ffuglen wyddonol a ffuglen realaidd yn gwbl amlwg ar yr olwg gyntaf. Wrth drafod darllen testunau ffuglen, noda Samuel R. Delany fod gan bob testun lefel o 'subjunctivity' arbennig, sef 'the tension on the thread of meaning that runs between [...] sound-image and sound-image'.³² Hynny yw, mae disgwyliadau a naws arbennig yn bodoli i'r geiriau a ddefnyddir mewn testunau o *genres* amrywiol, megis testunau realaidd, ffantasi a ffuglen wyddonol. Yn wahanol i ffantasi, nid yr afreal sydd wrth wraidd ffuglen wyddonol. 'The subjunctive level of SF says that we must make our correction process in accord with what we know of the physically explainable universe.'³³ O'r herwydd, bodola ffuglen wyddonol mewn genre sydd rhwng dau begwn, realaeth a ffantasi. Fel y dywed Sheila Hones: 'The tightness of this relationship between "what we know", "what we can say", and "what we can imagine" is fundamental to science fiction, where writers create strange worlds by reference to familiar geographies and within the conventions of familiar narrative forms.'³⁴ Mae'r elfennau cyfarwydd i'r darlennydd yn greiddiol i'r profiad darllen – tra bo ffuglen ffantasi yn herio popeth mae darllenwyr yn ei wybod am eu byd, mae ffuglen wyddonol yn gofyn iddyn nhw ystyried y byd o'u cwmpas, a dychmygu beth allai fod yn bosibl.

Fodd bynnag, yn *Ebargofiant*, gwthia Jerry Hunter y cysyniad o ddysgu darllen genre o'r newydd i'w ben draw eithaf, gan gyflwyno arbrawf ieithyddol. Darlunia'r nofel hanes Ed, sy'n derbyn 'sgwenydiaith' yn 'etifedd iaith' gan ei dad mewn dyfodol ôl-apocalyptaidd ymhell wedi'r drychineb wreiddiol. Esbonia Ed:

Sgwenydiaith dir iaith dwini isiarad wan ac dwini isiarad n wel na neb sin nabydus i vi [...] Haid wrth hai pethmas benig er mwini can lin sgwenydiaith ai siarad niawn, pethmas vel pap ir ac evid pen sil ac sgwrs haid wrth ola cyn isiaradhi ac dydioidim n hawd cal diono ola n y twl i weld y pot dwini pisio yndovo hebsonam diono ola n y twl i weld iaith sin cal i hoi ar bap ir wrth siarad sgwenydiaith.³⁵

Mae dieithrwch ac egni'r dweud yn y dyfodol hwn yn wahanol iawn i siars Doctor Llywarch i Ifan (a'r darllenydd) geisio ymlacio a chymryd pethau'n 'dawel fel y daw' yn *Wythnos yng Nghymru Fydd!*³⁶ Fodd bynnag, mae natur ailadroddus brawddegau Ed yn y bennod gyntaf yn dysgu'r darllenydd i ymgyfarwyddo â'r arddull anarferol, wrth iddo yntau ymgyfarwyddo â sut i 'sgrifennu, gan gofnodi sut dysgodd am yr wyddor ac am 'atal y nod' gan ei dad. Gan mai ef yw'r mab olaf mewn cymuned o ddynion, sylweddola Ed fod 'sgrifennu yn sgil arbennig sy'n sicrhau parhad y gymuned a'i diwylliant: '...dwin synio ivodo digadal sgwenydiaith obenig imi' (dwi'n synio ei fod o 'di gadael sgwenyddiaith go arbennig imi).³⁷ Yn ddiweddarach yn ei gofnod o'r dyfodol, wrth iddo fagu hyder yn 'siarad' sgwenydiaith, sylwa Ed ei fod yn ffordd o 'hoi pethmas si duwiwn idovo ar duaſan' (rhoi'r pethau sy' tu fewn iddo fo ar y tu allan),³⁸ mae'n dwyn i gof yr hyn a nodais i ddoe wrth drafod *Y Dydd Olaf*, ac yn creu rhyw gofnod real o deimladau ac atgofion.

27 Gorffennaf 2020

Tybed ai Kate Roberts yw un o'r llenorion Cymraeg amlycaf i wneud defnydd o'r dyddiadur a thrafod grym 'sgrifennu, a hithau wedi datgan ei bod hi'n 'gorfod sgrifennu rhag mygu'?³⁹ Wrth chwilota am ragor o wybodaeth am *Stryd y Glep* (nofel fer, neu 'stori hir fer ar ffurf dyddiadur') dros y diwrnodau diwethaf, des i o hyd i adolygiad ar ffurf dyddiadur gan Hugh Bevan.⁴⁰ Mae'n olrhain y broses o adolygu'r gyfrol, gan gychwyn gyda derbyn y gyfrol a llunio'i nodiadau, darllen dyddiaduron Virginia Woolf, a thrafod ei ddadansoddiadau ac argraffiadau o'r nofel wrth iddynt ddatblygu o ddydd i ddydd. Nid yw'n manylu ar y dyddiadur fel ffurf,

ond mae modd gweld y broses o adolygu'r gyfrol ar ei hyd. Fel y dywed Philippe Lejeune wrth drafod dyddiaduron: 'The private diary is a *practice*. The text itself is a mere by-product, a residue.'⁴¹ Y cwestiwn mawr yw, beth yw arwyddocâd hyn mewn cyd-destun llenyddol?

Wrth fwrw ati i gynllunio ymchwil ar ffurf beirniadaeth greadigol, darllenais bod syniadaeth 'Practice as Research' yn pwysleisio'r broses o ffurfio'r ymchwil: 'Documentation of process has emerged as another key dimension of PaR.'⁴² Felly o ystyried hynny a'r hyn a ddywed Lejeune am ddyddiadura fel proses, mae cadw dyddiadur yn fethodoleg sy'n gweddu'n dda i waith ymchwil. Yr hyn sy'n ddiddorol yw ystyried unwaith eto resymeg Rhiannon Marks dros lunio gohebiaeth ddychmygol rhyngddi hi, Menna Elfyn a Martha (myfyrwraig ddychmygol), sef herio'r syniad o gyflwyno beirniadaeth lenyddol fel rhywbeth ag ystyr absoliwt:

Bwriad ategol [y gwaith] yw tynnu sylw at y weithred o gyfansoddi beirniadol ei hun. Er bod awduron beirniadaeth lenyddol fel arfer yn trefnu eu syniadau mewn penodau trefnus thematig neu gronolegol, eir ati yma i herio'r confensiwn hwnnw [...] Dadl y gwaith a ganlyn yw mai confensiwn artifisial yw hwn am nad yw'n adlewyrchu'r broses ddarllen.⁴³

Mae ymchwil yn aml yn cyflwyno mwy o gwestiynau nag atebion! Ond i orffen fy mhwt o ymchwil am heddiw, fe wnaeth cofnod Marks am ffurf y dyddiadur ar Wici Beirniadaeth a Theori, ddyfynnu sylw arall gan Philippe Lejuene, sef: 'The diary is a wager on the future.'⁴⁴ Mae'r pwyslais eto rhwng y weithred o 'sgrifennu yn y presennol a'r syniad o ddarllenydd sydd eto'i ddod yn parhau'n nodwedd greiddiol. Noda Marc yn ei ddyddiadur mewn Cartref Machlud yn *Y Dydd Olaf* ei fod yn 'sgrifennu gyda 'gobaith am fedru trosglwyddo rhywfaint o'r gwirionedd i'r oesoedd a ddêl'.⁴⁵ Mewn man arall, 'sgrifenna:

Tybed nad er mwyn yr hunan y mae dyn yn cadw dyddiadur o'i wirfodd? Gorrach pen-mawr! Beth yw gwerth fy narlun bach narsis-aidd i, i un o'm disgynyddion pell? [...] Pa elw i arall o ddod i led adnabod darn aneglur o un agwedd ddibwys o un o'i gyndeidiau hen?⁴⁶

A yw'n deg datgan bod y dyddiadurwr yn 'sgrifennu mewn gwagle, heb sicrwydd y bydd ganddo ddarllenydd yn y dyfodol? Credaf fod rhaid bod gan yr adroddwyr yn y nofel-ddyddiaduron ryw syniad yng nghefn eu pen wrth 'sgrifennu fod diben i barhad eu geiriau. Fodd bynnag, teimlaf hefyd fod y dyddiadur yn sgwrs unochrog, a'r 'wager', fel petai, yw dyfalu a fydd yna ddarllenydd yn y dyfodol – naill ai yr awdur ei hun neu ddarllenydd arall. O deimlo 'mhen i'n troi erbyn hyn, dyma ofyn tybed beth fydd gan y dyfodol i'w ddweud am y dyddiadur hwn?

3 Awst 2020

Wrth ddechrau'r prosiect ymchwil hwn, bu rhuthr gwyllt i nodi syniadau ar bapur, gyda'r syniadau'n pefrio fel shampên yn ysu i ffrwydro ma's o'r botel. Mae'r cyfan wedi popio a chwympo braidd yn fflat erbyn hyn. Wedi syrffedu'n lân ar y cyfyngiadau clo yn sgil COVID-19, ac mae ceisio chwilio am dystiolaeth a methu â dod o hyd i'r hyn na'r llall (fy nghopi o rifyn cyntaf *Tu Chwith* yn parhau ar goll) wedi bod yn fwy heriol na'r arfer. Wrth gofnodi dyfyniadau wrth ddarllen, rydw i'n methu peidio ag ystyried beth ddiawl ydw i am ei wneud gyda'r gwaith yma nesaf? Mae dyddiad cyflwyno crynodebau ar gyfer rhifyn nesaf *Llên Cymru* yn nesáu, a dydw i dal ddim yn siŵr sut i grynhoi'r gwaith rydw i wedi'i wneud hyd yn hyn.

Hyd yma, mae'r enghreifftiau wedi canolbwyntio ar waith o'r genre ffuglen wyddonol ond fy ngobaith yw y bydd yr ymchwil yn berthnasol i nofel-ddyddiaduron yn gyffredinol. Heb ddod o hyd i unrhyw astudiaeth fanwl am nofelau ar ffurf dyddiaduron yn y Gymraeg ... wrth gwrs, dyw hynny ddim yn golygu nad oes un yn bodoli. Yn gyndyn o ddatgan yn bendant mai fy ngwaith fydd y cyntaf, rhag embarasio fy hun. Fodd bynnag, wrth gofio'n ôl i ddechrau fy nyddiadur fy hun, mae'r disgrifiad o Winston Smith ar ddechrau *Nineteen Eighty-Four* yn hynod berthnasol. Wrth iddo 'sgrifennu'r dyddiad yn dwt ar dudalen gwyn, gwaharddedig, nodar adroddwr: 'To mark the paper was a decisive act.'⁴⁷ Mae pwys mawr ar y weithred o ddechrau dyddiadur. Yn *Ebargofiant*, mynna Ed: 'Hoi argo si haid.' (Rhoi ar gof sydd raid.)⁴⁸ Mae'r thema o gofio (ac,

yn ei dro, anghofio) yn parhau yn thema ganolog mewn nifer o nofel-ddyddiaduron ffuglen wyddonol. Darlunia *Annwyl Smotyn Bach* gan Lleucu Roberts mam feichiog sy'n achub Llyfr Du Caerfyrddin rhag cael ei ddifa gan lywodraeth dotalitaraidd yn y flwyddyn 2040. Mewn sgwrs rhwng Llio a'i ffrind, Miriam, mynna ei chyfaill fod dymchwel llyfrau a thystiolaeth genedlaethol yn fodd i lwyr waredu hunaniaeth y Cymry a'r iaith Gymraeg: 'Maen nhw'n trio dileu'n cof ni fel cenedl.'⁴⁹ Ymateba Llio drwy nodi yn ei dyddiadur: 'Ac yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd sôn am gyrchoedd llyfrau a llawysgrifau: difa popeth sy'n weddill.'⁵⁰ Mae ei dyddiadur, heb iddi sylweddoli, yn 'weddill' cyfnod penodol a chyfnod pwysig ac yn dystiolaeth i haneswyr y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n sylweddoli pwysigrwydd ei dyddiadur, gan nodi yn 2089: 'Fydd neb ei angen na'i eisiau rŵan.'⁵¹

Yn wahanol i Llio, mae Siôn a Rowenna yn ymddangos yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd eu dyddiadur nhw i ddarllenwyr posibl yn *Llyfr Glas Nebo*. Mae'r nofel yn olrhain hanes Rowenna, a'i mab Siôn a'i merch Dwynwen wrth i Rowenna a Siôn gofnodi eu bywyd hunangynhaliol ar ôl trychineb niwclear maen nhw'n ei alw'n 'Y Terfyn'. Wrth osod 'Llyfr Glas Nebo' yn deitl ar ei lyfryn nodiadau newydd, esbonia Siôn: 'Fatha Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Coch Hergest. Fel'na roeddau nhw'n deud yn yr hen ddyddia' [...] Llyfra pwysig, oedd yn deud rhywbeth am hanes ein gwlad ni. Ac mae rŵan yn rhan o hanes, dydi?'⁵² Yn ogystal â hynny, ymddengys fod gan Siôn a Rowenna mwy o barch at eu gwaith hwythau fel cofnodwyr, gan gyfrannu'n hunanymwybodol at eu dyddiaduron, yn union fel y gwna Marc yn *Y Dydd Olaf*. Yn wahanol i'r 'bwndel o bapurau' a wthiwyd dan y llawr rywsut rywsut gan Llio yn *Annwyl Smotyn Bach*,⁵³ mae Siôn yn cadw'i ddyddiadur yntau mewn lle balch ymhlith y casgliad teuluol o lyfrau Cymraeg. 'A'n llyfr ni, Llyfr Glas Nebo, yn byw ar y silff yn eu canol nhw.'⁵⁴ Ynghyd â rhoi statws 'pwysig' ac i ryw raddau, 'gwerth ei ddarllen' i'r dyddiadur, mae Siôn a Rowenna hefyd yn gwneud rhywbeth sydd yn groes i'r hyn fyddai rhywun yn ei ddisgwyl wrth gadw dyddiadur, sef ei rannu rhwng dau. Er hyn, mae gan Siôn a Rowenna gytundeb i beidio â darllen cofnodion y naill a'r llall. Yn ôl Siôn:

A dyma ni'n cytuno, Mam a fi, i rannu Llyfr Glas Nebo. Hi'n sgwennu am yr hen ddyddia a'r Terfyn, a finna'n deud am rŵan, a sut mae byw. Ac rydan ni wedi gaddo i'n gilydd i beidio byth â darllen be ma'r llall wedi sgwennu, jyst rhag ofn. Rhag ofn be, dwi ddim yn siŵr.⁵⁵

Dyfynta Siôn yr unig amod gan Rowenna dros ddarllen cofnodion ei gilydd, sef: “Heblaw fod rhywbeth yn digwydd i ni.”⁵⁶ Yn wahanol i Llio, mae Siôn a Rowenna yn ymwybodol iawn o'r posibilrwydd y bydd rhywun yn darllen y gwaith rhyw ben yn y dyfodol, a'i fod yn 'weddill' i gyfnod arbennig yn eu bywydau nhw. Yn wir, eu 'Llyfr Glas Nebo' yw'r unig dystiolaeth bod merch Rowenna, Dwynwen, erioed wedi byw, gan nad oes tystysgrif geni ganddi na chwaith unrhyw luniau ohoni, o ganlyniad i effaith y drychineb niwclear a drawsnewidiodd eu bywydau.

Yn *Annwyl Smotyn Bach*, ceir darlun o Llio yn ailymweld â thudalennau ei dyddiadur, sy'n gosod y 2040 dyfodolaidd (i ddarllenydd 'go iawn' y nofel) yn y gorffennol. Pan nad yw nofel yn portreadu 'darganfod' y dyddiadur, mae darllenydd yn gallu teimlo ei fod yn eistedd wrth ochr y dyddiadurwr wrth iddo 'sgrifennu. Fodd bynnag, mae dyddiaduron mewn nofelau megis *Annwyl Smotyn Bach* wedi eu lleoli mewn cyfnod cynharach, a'r dyddiadur felly'n perthyn i'r gorffennol. Teimla fel profiad darllen gwbl wahanol...

7 Awst 2020

Gorffennais fy nghyfnod diwethaf braidd yn drwsgwl – wedi cael digon ar ddiwrnod o ymchwil mwy na thebyg! Ta beth, o bori'n ôl, sylwais imi gyfeirio'n fras at ddyddiaduron yn cael eu darganfod. Mae *Y Blaned Dirion* gan Islwyn Ffowc Elis yn gyfrol sy'n olrhain hanes taith Teyrnnon Williams a'i griw wrth iddyn nhw fynd ar daith ofodaidd yn ystod y blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd a darganfod cymuned iwtopaidd o arallfydwyr deallus ym mhellafion y bydysawd ar y Blaned Dirion. Mae'r gyfrol yn cynnwys pypiau o ddyddiadur y gwyddonydd Teyrnnon Williams wedi'u fframio gan naratif dychmygol adroddwr anhysbys. Daw'r 'US Space Agency' o hyd

i'r dyddiadur, gan ofyn i aelod o Adran y Gymraeg mewn prifysgol ddiennw ei gyfieithu. Sylwais mai *Y Blaned Dirion* yw un o'r enghreifftiau prin o nofel-ddyddiaduron sy'n pennu gwerth i'r dyddiadur fel gwrthrych, yn ogystal ag i'w gynnwys. Dywed yr adroddwr anhysbys:

Rydw i'n bwriadu dal fy ngafael yn y llyfr-log yma am weddill fy oes. Oherwydd mae ynddo rhywbeth heblaw papur a geiriau. Fe fu dan fy nwylo i am fisoedd bwygilydd – tra bùm i'n ei gyfieithu ac wedyn tra bùm i'n ailysgrifennu'i stori. Fe welodd olau planed arall; fe fu dan ei haul hi a'i lleuadau; fe aeth ei hawyr a'i harogleuon hi iddo.⁵⁷

Rhaid cyfaddef, dyma'r tro cyntaf i fi ystyried y gwrthrych ac i ba gyfnod (gorffennol, bresennol neu ddyfodol) y perthyna'r eitem ei hun (nid yr ysgrifen rhwng dau glawr yn unig) wrth ddadansoddi nofel-ddyddiaduron. Yn ogystal â hynny, mae sylw'r adroddwr am 'ailysgrifennu'r stori' yn peri pryder, ond ymddengys ei fod yn arfer digon cyffredin. Ynghyd â chyfieithiadau, mae dyddiadur enwog Anne Frank wedi'i olygu sawl tro cyn ei gyhoeddi, ganddi hi ei hun a'i thad wedyn.⁵⁸ Onid yw'r dyddiadurwr ei hun yn hunanolygu ei deimladau cyn eu cofnodi ar bapur? Pa mor onest yw'r cyfrwng mewn gwirionedd? Wrth ystyried ymarferion beirniadol sy'n ymwneud â'r darlennydd, onid oes peryg bod y dyddiadur yn cael ei ddehongli mewn ffordd wahanol, a'r digwyddiadau a gofnodwyd yn cael eu dylanwadu gan y dyddiadurwr? Archwilir hyn yn 'Stryd Amos', parodi Mihangel Morgan o *Stryd y Glep*, lle gwelir digwyddiadau 'gwir' i Ffebi Beca yn y nofel wreiddiol o safbwynt gwahanol, gan herio dilysrwydd yr adroddwr. Fel yr amlyga Rhiannon Marks, mae'n dangos 'anallu hyd yn oed y genre mwyaf ymddangosiadol "real" i adlewyrchu "realiti"'.⁵⁹ Mater o bersbectif yw realiti ar adegau, wedi'r cwbl ...

10 Awst 2020

Dim sylwadau newydd heddiw. Wedi cael hen ddigon yn ceisio ateb fy nghwestiynau fy hun am y nofel-ddyddiadur, dim ond i faglu dros gwestiwn arall yn y cyfamser gan godi mwy fyth o gwestiynau wrth i fi fynd yn fy

'mlaen ... ond colofn Mihangel Morgan yn rhifyn diweddaraf *O'r Pedwar Gwynt* wedi codi gwên heddiw! Gwna hwyl ar ben y cysyniad o oroeswyr mewn naratifau ôl-apocalyptaidd, gan nodi y byddai apocalyps yn lladd pob un yn y pen draw. Ymagwedda i'r adroddwr person cyntaf mewn nofel-ddyddiaduron, drwy gyfarch yn bendant: 'Chi Ddarllenyydd, nad yw'n bod.'⁶⁰ Wel, os nad yw'r darllenyydd yn bod (o ganlyniad i drychineb ôl-apocalyptaidd, neu'n sgil y ffaith bod y dyddiadurwr wedi dod o hyd i guddfan addas iawn, iawn i'w ddyddiadur cyfrinachol), i ba ddiben yr â rhywun ati i gadw dyddiadur?

A hyd yn oed pan fydd darllenyydd yn bod, allwn ni fod yn siŵr y bydd ganddo unrhyw ddiddordeb yn y gwaith? Nofel-ddyddiadur Gwern Esgus, sy'n cofnodi hanes rhyfel rhwng Tir Bach a Gwlad Alltud mewn dyfodol arallfydol, yw *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* gan Robin Llywelyn. Mae'r dyddiadur ar ffurf 'cardiau geiriau' electronig, ac ar ddechrau'r nofel cawn y clerc Zahlappell yn dychwelyd o'i waith yn Archifdy Sgrins Gwifrau Castell Entwudigung gyda'r 'cardiau geiriau' anghywir yn ei gês. Fe'i disgrifir fel rhywun sy'n gwyllo'r cofnodion 'CYFRINACHOL' hyn mewn ffordd 'ddi-hid', gan gwmpo i gysgu wrth i deithlyfr trydan Gwern Esgus ymddangos ar y sgrin.⁶¹ Disgrifia Johan Schimanski'r olygfa fel a ganlyn: 'I'r clerc Zahlappell y mae'r stori o gyn lleied o ddiddordeb hanesyddol diriaethol iddo fel ei fod yn cysgu drwy'r cwbl wrth i'r tudalennau fficio heibio ar ei sgrin ddarllen. Ei ddallineb ef sydd yn rhwystro ein mewnwelediad.'⁶² Serch y gnoc fygythiol ar y drws ganol nos erbyn diwedd y nofel, mae Zahlappell wedi llwyddo i ddisodli pwysigrwydd dyddiadur Gwern fel cofnod hanesyddol, gan gyfeirio ato fel 'rhyw sothach henffasiwn am y rhyfal',⁶³ ac mae'n ymddangos yn 'ddarllenyydd' heb iot o ddiddordeb yn y pwnc na'r cyfnod dan sylw.

Bosib fy mod wedi bod braidd yn obeithiol y bydd y dyddiadur yma rwy'n ei 'sgrifennu nawr yn gweld golau dydd rhyw ben, ac y gallai fod yn gyfraniad at rywbeth pwysig neu benodol ... Wrth geisio darnio fy ymchwil at ei gilydd, a phendroni am ddarllenwyr, neu ddiffyg darllenwyr, yr unig gwestiwn sydd gyda fi erbyn heddiw yw ... wel, beth yn union yw pwynt 'sgrifennu dyddiadur heb wybod a fydd unrhyw un yn ei ddarllen?

O.N. Daethpwyd o hyd i ddyddiadur Miriam Elin Jones flynyddoedd ar ôl iddi ei lunio, ar hen gofbin a ddarganfuwyd mewn adfail ym Mro Morgannwg. Bu'n gryn dipyn o her agor y ddogfen Microsoft Word 2010 dan sylw ar system Windows XZ40 a bu bron i'r cofbin gael ei daflu i'r bin. Drwy hap a damwain, daeth fy mhartner ymchwil o hyd i hen gyfrifiadur gyda'r feddalwedd angenrheidiol i agor y ddogfen mewn siop *antiques*. Nawr bod ei chynnwys yma o'm blaen, rhaid edrych yn fanwl ar y cofnod o ymchwil ar ffurf dyddiadur a dadansoddi ei werth hanesyddol i ni heddiw. Gan nad oes tystiolaeth o unrhyw gyhoeddiad gan Jones rhwng 2020 a 2080 yn yr un o'r cyfnodolion Cymraeg rydyn ni'n gyfarwydd â nhw, pa mor ddibynadwy yw sylwebaeth Jones, tybed? Wrth edrych ar ddibynadwyedd adroddwyr mewn ffuglen, dywed William F. Riggan: 'First-person narration is, then, always at least potentially unreliable, in that the narrator, with these human limitations of perception and memory and assessment, may easily have missed, forgotten, or misconstrued certain incidents, words, or motives.'⁶⁴ A wnaeth Jones hepgor neu anghofio cofnodi elfennau o'r gwaith ymchwil? Mae cyfyngiadau i bob adroddwr, ac i bob ymchwil-ydd yn yr un modd. Daw i'r amlwg na sylweddolodd Jones rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2020 fod pytau o ddyddiaduron yn y nofel ffuglen wyddonol epistolaidd *Gwales* gan Catrin Dafydd, neu a aeth ati i'w hepgor o'r prosiect yn fwriadol (a hithau, o bosib, wedi cael hen ddigon ar gasglu testunau ynghyd)?

Ceisiwyd mynd ar drywydd rhai o'r testunau a drafodwyd, er mwyn dysgu mwy am yr ymchwil dan sylw – gorchwyl digon heriol, gan fod nifer o'r testunau allan o brint ers degawdau, er bod rhai wedi eu digido. Wrth ddod o hyd i *Llyfr Glas Nebo* ar ffurf e-lyfr, er enghraifft, gwelir sylwadau yn y naratif sy'n awgrymu nad yw'r gwir i gyd yn cael ei gofnodi mewn dyddiadur. Dysgwn fod Rowenna wedi cadw Gwion, tad Dwynwen, yn gyfrinach oddi wrth ei mab, a noda sawl tro ei bod hi'n ymwybodol bod rhaid iddi ddewis a dethol cynnwys ei dyddiadur yn ofalus. 'Does dim angen i bopeth gael ei nodi a'i gofio.'⁶⁵ Er ei bod hi'n rhannu rhywfaint o'i phrofiad, ni chyflwynna'r darlun cyfan. Wrth ystyried y ffordd y mae pobl yn ymddiried mewn dyddiadur, erys sylwadau Ffebi Beca yn *Stryd y Glep* yn hynod berthnasol. Dywed fod y 'dyddlyfr fel y peth nesaf at ddyn ei hun. Sieryd rhai â'u dydd lyfr fel pe baent yn siarad â hwy eu

hunain, a rhai fel pe baent yn siarad â Duw.⁶⁶ Er bod y dyfyniad yn cyfeirio at natur gyffesol yr hyn a gofnoda unigolyn yn ei ddyddiadur, rhaid cofio bod modd i fodau dynol dwyllo'i gilydd, a thwylllo'u hunain hefyd ar adegau.

Dyfynnir y pwt canlynol o *Llyfr Glas Nebo* yn nyddiadur Jones: '...mae rŵan yn rhan o hanes, dydy?'⁶⁷ Pwysleisir yn y nodiadau uchod fod gan ddyddiadurwyr ran bwysig i'w chwarae wrth gofnodi hanes, fodd bynnag, mae gan y darllenydd ran bwysig wrth greu a chyd-gofio'r hanes hwnnw hefyd. Yn rhan o brosiect ymchwil *Unsettling Scientific Stories* yn 2016, aethpwyd ati i ystyried pwysigrwydd delweddau o'r dyfodol mewn ffuglen wyddonol, a'u hystyried wrth gofnodi hanes datblygiadau gwyddonol.⁶⁸ Wrth ddiffinio ffuglen wyddonol yn y cyd-destun hwnnw, noda arweinwyr y prosiect, Amanda Rees ac Iwan Rhys Morus:

First, despite being fiction, SF can't just be made up. It must at some level reflect a scientific, realistic understanding of the world as it tells a story that could, plausibly, eventually come to pass. Second, that these understandings will change over time, whether or not the predictions of individual writers prove to be accurate, or come to pass.⁶⁹

Mae'r cysyniad bod dealltwriaeth darllenydd yn newid dros amser wedi dod i'r amlwg yn yr hyn a nodwyd yn y dyddiadur uchod. Er bod elfennau rhyfeddol a dyfaliadol yn perthyn i'r genre ffuglen wyddonol, mae'n debycach i ffuglen realaidd nag ydyw i ffuglen ffantasi. Noda Lisa Garforth sylwadau'r awdur Kim Stanley Robinson ar flog y prosiect, sy'n disgrifio ffuglen wyddonol fel genre sy'n adeiladu hanes ffuglennol, gan wreiddio'i hun yn 'heddiw' yr awdur a gweithio tuag at rhyw yfory mewn dyfodol pell.⁷⁰ Wrth ystyried y dyddiadur fel tystiolaeth hanesyddol hynod bwysig, mae'r nofel-ddyddiadur felly'n cynnig ei hun fel tystiolaeth o'r dyfodol, er ei fod yn dystiolaeth ffuglennol o ddyfodol ffuglennol, ond hefyd yn dystiolaeth o ddyheadau a/neu ofnau awdur yn ei bresennol.

Felly, mae'n deg crynhoi bod y syniad o sicrhau bod rhywbeth ar gof a chadw yn rhan bwysig o'r broses ddyddiadura mewn nofel-ddyddiaduron ffuglen wyddonol. Fodd bynnag, ymddengys fod rhai pethau hefyd yn

rhy anodd i ddygymod â hwy. Wrth ail-ddarllen ei dyddiadur ac ail-fyw marwolaeth ei baban (ac, yn drosiadol, farwolaeth y Gymraeg a'i diwylliant), mynega Llio yn *Annwyl Smotyn Bach*: 'Mae 'na lawer i'w ddweud dros anghofio.'⁷¹ Yn ogystal â hynny, cyflwyno'r ymchwil uchod y posibilrwydd nad oes yna neb ar gael i ddarganfod y nofel-ddyddiaduron a drafodwyd, heb sôn am eu darllen. Fodd bynnag, gan gymryd yn ganiataol fod yna ddarllenydd, mae'r dyddiadur, yn amlach na pheidio, yn tynnu gwahanol gyfnodau hanesyddol ynghyd, ac yn eu galluogi i gydfodoli ar yr un pryd o fewn un gwrthrych. Wrth ddarllen ffuglen wyddonol, ymddengys fod cyflwyno'r stori ar ffurf dyddiadur yn fwy na thechneg i greu a chyflwyno byd anghyfarwydd. Rhydd gyfle i awduron a darllenydd fodoli mewn cyfnod ymhell y tu hwnt i'w cyfnodau eu hunain, a dychmygu a dyfalu ynghylch 'hanes' sydd eto'i ddod. Yn y pen draw, bron nad yw'r amser yn bod, nac yn bwysig – mae syniadau da yn para oes.

Dinas Powys

MIRIAM ELIN JONES

Nodiadau

- ¹ Paul Kincaid, 'On the Origins of Genre', *Extrapolation*, 44 (2003), 412.
- ² *Ibid.*, 415.
- ³ Adam Roberts, *The History of Science Fiction* (New York: Palgrave Macmillan, 2005), t. 18.
- ⁴ Roger Luckhurst, *Science Fiction* (Cambridge: Polity Press, 2005), t. 3.
- ⁵ Roger Luckhurst, 'The Many Deaths of Science Fiction: A Polemic', *Science Fiction Studies*, 21 (1994), 43.
- ⁶ Gweler J. Tysul Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman a'r Cylch 1970* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1970), t. 102, ac Islwyn Ffowc Elis, 'Yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Nofel Gymraeg', yn Gerwyn Wiliams (gol.), *Rhyddid y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1999), t. 148.
- ⁷ Owain Owain, *Y Dydd Olaf* (Abertawe: Christopher Davies Cyf, 1976), t. 17.
- ⁸ Mewn dyddiadur, ni fyddai angen esbonio pwy yn union yw El, fodd bynnag, mae'n well i fi esbonio er budd y darllenydd mai El yw fy mhartner, Eliot.
- ⁹ Bruce Merry, 'The Literary Diary as a Genre', *The Maynooth Review*, 19 (1979), 3.

- ¹⁰ Lorna Martens, *The Diary Novel* (2il arg.; Cambridge: Cambridge University Press, 2009), t. 3.
- ¹¹ Trevor Field, *Form and Function in the Diary Novel* (London: Palgrave Macmillan, 1989), t. 20.
- ¹² Kate Roberts yn Tom Parry (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol 1942* (Aberteifi: Gwasg y Brython, 1942), t. 142.
- ¹³ Gerald Prince, 'The Diary Novel: Notes for the Definition of a Sub-genre', *Neophilologus*, 59 (1975), 478.
- ¹⁴ Owain, *Y Dydd Olaf*, tt. 28–9.
- ¹⁵ Field, *Form and Function in the Diary Novel*, t. 10.
- ¹⁶ Owain, *Y Dydd Olaf*, t. 45.
- ¹⁷ Hélène Cixous, "Coming to Writing" and Other Essays, gol. Deborah Jenson, cyf. Sarah Cornell, Deborah Jenson, Ann Liddle a Susan Sellers (Cambridge and London: Harvard University Press, 1991), t. 3.
- ¹⁸ John Idris Owen, *Y Tŷ Haearn* (Llandysul: Gwasg Gomer 1984), t. 8.
- ¹⁹ Owain, *Y Dydd Olaf*, t. 113.
- ²⁰ *Ibid.*, t. 51.
- ²¹ *Ibid.*
- ²² Islwyn Ffowc Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd* (3ydd arg.; Llandysul: Gwasg Gomer, 2007), t. 1.
- ²³ *Ibid.*
- ²⁴ *Ibid.*
- ²⁵ Johan Schimanski, 'Wythnos yng Nghymru Fydd – unwaith eto', *Taliesin*, 88 (1994), 25.
- ²⁶ *Ibid.*
- ²⁷ *Ibid.*
- ²⁸ *Ibid.*, 29.
- ²⁹ Sioned Puw Rowlands, 'Mihangel Morgan: Rhwng Realiaeth a Beirniadaeth', yn John Rowlands (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau: Golwg ar Ffurfafen y Nofel Gymraeg Ddiweddar* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), t. 216.
- ³⁰ *Ibid.*
- ³¹ Merry, 'The Literary Diary as a Genre', t. 3.
- ³² Samuel R. Delany, *The Jewel-Hinged Jaw: Notes on the Language of Science Fiction* (Middletown: Wesleyan University Press, 2009), t. 10.
- ³³ *Ibid.*, t. 12.
- ³⁴ Sheila Hones, 'What We Can Say About Nature: Familiar Geographies, Science Fiction and Popular Physics', yn Rob Kitchen a James Kneale (goln), *Lost in Space: Geographies of Science Fiction* (London & New York: Continuum, 2002), t. 156.
- ³⁵ Jerry Hunter, *Ebargofiant* (Talybont: Y Lolfa, 2014), t. 8.
- ³⁶ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 20.

- 37 Hunter, *Ebargofiant*, t. 10.
- 38 *Ibid.*, t. 51.
- 39 Saunders Lewis (gol.), *Crefft y Stori Fer* (Aberystwyth: Y Clwb Llyfrau Cymreig, 1949), t. 11.
- 40 Hugh Bevan, 'Stryd y Glep', *Y Llenor*, 28 (1949), 259–264.
- 41 Jeremy D. Popkin a Julie Rak (goln), *Philippe Lejeune, On Diary* (Honolulu: University of Hawaii Press, 2009), t. 31.
- 42 Robin Nelson, *Practice as Research in the Arts: Principles, Protocols, Pedagogies, Resistances* (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2013), t. 28.
- 43 Rhiannon Marks, *Pe Gallwn Mi Luniwn Lythyr: Golwg ar waith Menna Elfyn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2013), t. 15.
- 44 Rhiannon Marks, 'Dyddiadur', (Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Esboniadur: Wici Beirniadaeth a Theori, 2016) [Ar-lein]. Ar gael: <https://wici.porth.ac.uk/index.php/Dyddiadur>, cyrchwyd 27 Gorffennaf 2020.
- 45 Owain, *Y Dydd Olaf*, t. 31.
- 46 *Ibid.*, t. 50.
- 47 George Orwell, *Nineteen Eighty-four* (11eg arg.; London: Penguin, 2008) t. 9.
- 48 Hunter, *Ebargofiant*, t. 18.
- 49 Lleucu Roberts, *Annwyl Smotyn Bach* (Talybont: Y Lolfa, 2008), t. 25.
- 50 *Ibid.*, t. 75.
- 51 *Ibid.*, t. 155.
- 52 Ros, *Llyfr Glas Nebo*, t. 6.
- 53 Roberts, *Annwyl Smotyn Bach*, t. 9.
- 54 Ros, *Llyfr Glas Nebo*, t. 143.
- 55 *Ibid.*, t. 15.
- 56 *Ibid.*, t. 15.
- 57 Islwyn Ffowc Elis, *Y Blaned Dirion* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1968), t. 195.
- 58 Eigra Lewis Roberts (addas.), *Dyddiadur Anne Frank* (Caerdydd: Gwasg Addysgol Cymru, 1996).
- 59 Rhiannon Marks, *Y Dychymyg Ôl-fodern: Agweddau ar Ffuglen Fer Mihangel Morgan* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2020), t. 80.
- 60 Mihangel Morgan, 'Un Goroeswr Sydd', *O'r Pedwar Gwynt* [Ar-lein]. Ar gael: <https://pedwargwynt.cymrudadansoddilgollun-goroeswr-sydd>, cyrchwyd 10 Awst 2020.
- 61 Robin Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992), t. 5.
- 62 Johan Schimanski, 'Genre a Chenedl', *Tu Chwith*, 1 (1993), 41.
- 63 Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 148.
- 64 William F. Riggan, *Picaros, Madmen, Naifs, and Clowns: The Unreliable First-Person Narrator* (Norman: University of Oklahoma Press, 1981), tt. 19–20.
- 65 Ros, *Llyfr Glas Nebo*, t. 61.

- ⁶⁶ Kate Roberts, *Stryd y Glep* (Dinbych: Gwasg Gee, 1949).
- ⁶⁷ Ros, *Llyfr Glas Nebo*, t. 6.
- ⁶⁸ ‘A History of the Future: Welcome to unsettling Scientific Stories Blog’, 18 Ebrill 2016 [Ar-lein]. Ar gael: <http://unsettlingscientificstories.co.uk/welcome-blog>, cyrchwyd 1 Hydref 2020.
- ⁶⁹ Amanda Rees ac Iwan Rhys Morus, ‘Presenting Futures Past: Science Fiction and the History of Science’, *Osiris*, 34 (2019), 12.
- ⁷⁰ Lisa Garforth, ‘History and Science Fiction’, *Unsettling Science*, 27 Ebrill 2016, [Ar-lein]. Ar gael: <http://unsettlingscientificstories.co.uk/history-and-sf>, cyrchwyd 2 Hydref 2020.
- ⁷¹ Roberts, *Annwyl Smotyn Bach*, tt.151–2.